TUDALEN 1

Y WEINYDDIAETH GYFIAWNDER

# Cyllid Arbennig gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Wasanaethau Cymorth ar gyfer Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod COVID-19

## Canllawiau Dyrannu Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Chwestiynau Cyffredin

Mai 2020

TUDALEN 2

**Cefndir**

1. Ar 2 Mai 2020, cyhoeddodd y Llywodraeth becyn o £76m o gyllid ychwanegol er mwyn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol, plant agored i niwed a'u teuluoedd, a dioddefwyr caethwasiaeth fodern, yn ystod pandemig COVID-19.

2. O'r pecyn cyllid £76m hwn, caiff £25m ei weinyddu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hyn yn ychwanegol at y cyllid o £3m y flwyddyn (tan 2022) rydym yn ei ddarparu i gefnogi'r gwaith o recriwtio Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol.

3. Ein prif nod yw sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddyrannu drwy'r sector ledled Cymru a Lloegr, gan gyrraedd sefydliadau cymorth o bob maint a'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Rydym yn ceisio cadw'r prosesau mor syml ac effeithlon â phosibl er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cyrraedd y sefydliadau sydd ei angen mor gyflym â phosibl. I gyflawni hyn, lle maent yn bodoli, rydym yn defnyddio ffynonellau cyllido sy'n bodoli eisoes a data ar alw ac angen.

4. Bydd cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei ddyrannu drwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Dangosir y dadansoddiad o ran dyrannu'r cyllid hwn yn y tabl isod. Bydd £5m o'r cyllid hefyd ar gael i sefydliadau sydd eisoes yn cael eu cyllido drwy Gronfa Genedlaethol Cymorth Treisio. Mae'r ddogfen ganllaw ar gyfer dyrannu cyllid drwy Gronfa Genedlaethol Cymorth Treisio ar gael yn https://www.gov.uk/guidance/covid-19-funding-for-domestic-abuse-andsexual-violence-support-services

5. Rhoddir manylion am y ffordd y bydd gweddill y pecyn cyllid o £76m yn cael ei weinyddu, a diben pob cronfa, isod hefyd. Efallai y bydd sefydliadau cymorth yn darganfod bod angen iddynt ofyn am gyllid gan fwy nag un gronfa, yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth sydd ei hangen arnynt.

6. Ar 7 Mai 2020, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ganllawiau ar y ffordd y gall sefydliadau gael gafael ar y cyllid o £10m sydd wedi'i ddyrannu

ar gyfer llety diogel i ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae'r manylion ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-safe-accommodationcovid-19-emergency-support-fund

7. Ar 19 Mai 2020, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ganllawiau cychwynnol ar y ffordd y gall sefydliadau gael gafael ar £2m ar gyfer cam-drin domestig. Ymhlith y sefydliadau a fyddai'n gymwys ar gyfer cronfa'r Swyddfa Gartref byddai:

- Sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth cenedlaethol (h.y. yn cwmpasu Cymru a/neu Loegr i gyd).
- Sefydliadau lle mae'r dioddefwyr a gaiff gymorth wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws sawl ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a/neu nid oes un ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn fan amlwg i'r mwyafrif o'r dioddefwyr.
- Sefydliadau mantell neu ail haen.
- Sefydliadau sy'n adeiladu capasiti, neu sy'n cefnogi sefydliadau eraill i gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n cefnogi'r heddlu i ymateb i gam-drin domestig. Mae hefyd yn cynnwys y rhai sy'n cefnogi awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill.



Mwy o fanylion am sut i wneud cais am gyllid i ddilyn.

8. Mae Cyllid y Loteri Genedlaethol yn rhan o'r pecyn cymorth cymdeithas sifil £750m ehangach y gwnaeth y Llywodraeth ei gyhoeddi ar 8 Ebrill. Yn ogystal â gweld cyllid yn cael ei ddyrannu gan adrannau llywodraeth ganolog, bydd rhan o'r pecyn hwn yn cynnwys cronfa agored i elusennau a mentrau cymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed y mae'r argyfwng wedi effeithio arnynt yn Lloegr. Darperir hyn drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Nodir y meini prawf a'r broses gwneud cais ar gyfer y cyllid hwn maes o law.

**Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

9. Mae'r cronfeydd a ddyrennir gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau cam-drin domestig sydd eisoes yn cael eu comisiynu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | £10m |
| Gwasanaethau trais rhywiol sydd eisoes yn cael eu comisiynu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r rhai nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | £5m |
| Gwasanaethau cam-drin domestig nad ydynt yn cael eu comisiynu ar hyn o bryd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | £5m |

10. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y cyllid, rhaid i sefydliadau fod yn elusen gofrestredig, yn sefydliad corfforedig elusennol, neu'n fenter gymdeithasol, gan gynnwys cwmnïau cyfyngedig drwy warant a chwmnïau buddiannau cymunedol. Rhaid eu bod yn darparu gwasanaethau cymorth er mwyn helpu dioddefwyr troseddau i ymdopi ag effeithiau troseddau, yn ogystal â gwella o'r niwed a gawsant, hyd y gellir.

11. Bydd pob ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael gwybod am ddyraniad cronfeydd dangosol, gan ddefnyddio'r fformiwla seiliedig ar y boblogaeth a ddefnyddir ar hyn o bryd i bennu cyllid grant dioddefwyr. Caiff yr holl gyllid ei neilltuo ar gyfer cyllid arbennig sy'n ymwneud â COVID-19, ac yna fe'i neilltuir eto ar gyfer gwariant ar bob un o'r tri maes angen a ddangosir yn y tabl. Ni all y cronfeydd a ddyrennir ar gyfer y tri math gwahanol o wasanaethau gael eu symud rhwng potiau.

**Amodau cyffredinol**

12. Mae'r cyllid arbennig yn ystod COVID-12 ar gael rhwng 24 Mawrth a 31 Hydref 2020 ar gyfer y costau y mae elusennau cofrestredig neu fentrau cymdeithasol wedi mynd iddynt neu y byddant yn mynd iddynt wrth addasu eu gwasanaethau yn ystod y pandemig. Mae hefyd yn eu helpu i ateb y galw cynyddol yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer y canlynol:
• mynd i'r afael ag unrhyw achosion o golli incwm yn y tymor byr;
• talu costau hanfodol sydd eu hangen i gynnal gweithgareddau cyfredol, megis prynu asedau i gefnogi'r broses o symud i weithio'n ddigidol ac o bell yn ogystal â'r aelodau ychwanegol o'r staff sydd eu hangen i gyflenwi am y rhai nad ydynt yn gallu gweithio am resymau'n ymwneud â'r pandemig;
• mynd i'r afael â'r cynnydd mewn galw.

TUDALEN 4

13. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr, a chaiff rhagor o fanylion eu nodi mewn trefniadau grant penodol ar gyfer COVID-19 gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a rhaid cydymffurfio â'u hamodau wrth ddyrannu cyllid.

14. Rhaid bod sefydliadau wedi'u lleoli yng Nghymru a Lloegr i fod yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

15. Ni all sefydliadau ddefnyddio'r cyllid hwn i ddatblygu prosiectau neu wasanaethau newydd nad ydynt yn ymwneud â'r ymateb i COVID-19, er enghraifft dylunio llwyfannau technoleg na fyddant yn barod i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnod y cyllid.

16. Rhaid i sefydliadau sicrhau na ellir talu'r costau sy'n ymwneud â COVID-19 o unrhyw ffrwd gyllido bresennol, dulliau codi arian, rhoddion preifat a grantiau sydd eisoes yn bodoli.

17. Ni all sefydliadau wneud cais os oes modd diwallu eu hanghenion drwy fesurau cymorth COVID-19 eraill, megis y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws a'r mesur i ohirio TAW am dri mis.

18. Gellir defnyddio'r cyllid i dalu am y costau sy'n gysylltiedig â COVID-19 o 24 Mawrth 2020, sef diwrnod cyntaf y cyfyngiadau symud.

19. Y sefydliadau sy'n gyfrifol am unrhyw wariant y maent yn ymrwymo iddo y tu hwnt i 31 Hydref 2020.

20. Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gynnal asesiad o'r angen am gyllid arbennig sy'n ymwneud â COVID-19, o ran gwasanaethau cymorth trais rhywiol a cham-drin domestig yn eu hardal leol. Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sicrhau bod yr asesiad yn bodloni nifer o amodau cyffredinol, yn ogystal â rhai penodol o ran trais rhywiol a cham-drin domestig a nodir isod:

• mae'r broses yn agored ac yn dryloyw, a chaiff meini prawf asesu eu cyhoeddi;
• mae'r broses yn agored i bob sefydliad cymorth perthnasol yn ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ac mae'n annog ceisiadau oddi wrth sefydliadau arbenigol bach sy'n cefnogi grwpiau â nodweddion gwarchodedig;
• mae enwau cyswllt ym mhob swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ateb ymholiadau;
• dylai enwau pob sefydliad a wnaeth ofyn am gyllid, a'r rhai a fu'n llwyddiannus, gael eu cyhoeddi ar ddiwedd y broses.

21. Bydd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gryn dipyn o'r wybodaeth sy'n ymwneud ag anghenion darparwyr gwasanaethau presennol eisoes, ar ôl anfon asesiad o'r fath i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ddiweddar. Efallai y byddant am ddefnyddio'r templed rydym wedi'i ddarparu i gynnal asesiad pellach, mwy cyfredol, sydd ar gael yma https://www.gov.uk/guidance/covid-19-funding-for-domestic-abuse-and-sexualviolence-support-services. Er mwyn sicrhau bod asesiad teg yn cael ei gynnal ym mhob ardal, bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu nodi'r canlynol wrth asesu anghenion:

• a oes sefydliad eisoes yn cael ei ariannu ganddynt;
• a yw'r sefydliad yn rhoi cymorth i ddioddefwyr â nodweddion gwarchodedig (dioddefwyr o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, dioddefwyr Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol a dioddefwyr anabl);



• a yw'r sefydliad wedi colli incwm oherwydd COVID-19 (e.e. digwyddiad codi arian a gynlluniwyd ond na chafodd ei gynnal);
• unrhyw incwm ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 y mae'r sefydliad wedi'i gael. (Incwm gan lywodraeth leol, gwasanaethau statudol, rhoddion ac unrhyw weithgarwch rhoi sy'n mynd rhagddo);
• sut mae lefel cronfeydd wrth gefn bresennol y sefydliad yn cymharu â busnes fel arfer. (A oes angen i'r sefydliad ddefnyddio ei gronfeydd wrth gefn i barhau i redeg?);
• y costau ychwanegol y mae'r sefydliad wedi mynd iddynt yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 o 24 Mawrth 2020;
• y costau ychwanegol y mae'r sefydliad yn eu disgwyl yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 tan ddiwedd mis Hydref 2020.

22. Pan fydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn fodlon ei fod wedi cynnal proses asesu sy'n bodloni'r amodau cyffredinol, a'i fod wedi penderfynu sut y dylai'r cyllid gael ei ddyrannu, rhaid iddo ddarparu datganiad ysgrifenedig i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadarnhau bod y broses ofynnol wedi'i dilyn https://www.gov.uk/guidance/covid-19- funding-for-domestic-abuse-and-sexual-violence-support-services.

23. Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gynnwys cynigion ar gyfer dyrannu'r cyllid, yn ogystal â nodi a fydd unrhyw danwariant. Gweler isod wybodaeth am y broses oruchwylio.

24. **Ni ddisgwyliwn i'r broses hon bara mwy na 14 diwrnod o'r dyddiad y caiff Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu llythyr dyrannu dangosol.** Cyflwynir cytundebau grant pan fydd y gwaith papur wedi'i wirio'n foddhaol. Rhyddheir taliad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder pan ddychwelir y cytundebau grant wedi'u llofnodi.

25. **Disgwyliwn i daliad gael ei ryddhau i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu o fewn saith diwrnod i gael cytundebau grant oddi wrth Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sydd wedi'u llofnodi, a gwneir pob taliad i sefydliadau cymorth o fewn saith diwrnod.**

26. **Bydd angen hysbysu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am unrhyw danwariant disgwyliedig erbyn 31 Awst 2020, a darparu adroddiad diwedd tymor monitro llawn ar gyfer cyllid arbennig COVID-19 erbyn 30 Tachwedd 2020 fan bellaf.**

27. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a Chronfa Cymunedau'r Loteri Genedlaethol, gan rannu data perthnasol er mwyn atal twyll a dyblygu cyllid. Nid yw hyn yn atal gwasanaethau rhag gwneud cais ar wahân i becynnau cymorth eraill COVID-19 ar gyfer gwahanol agweddau ar eu gwasanaeth.

28. Dylai sefydliadau lle mae'r dioddefwyr a gaiff gymorth wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws sawl ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a/neu nid oes un ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn fan amlwg i'r mwyafrif o'r dioddefwyr, gyflwyno cais am gyllid i Gronfa'r Swyddfa Gartref yn hytrach na Chronfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.



**Amodau cyllid penodol ar gyfer cam-drin domestig**

29. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **cyllid penodol ar gyfer cam-drin domestig**, rhaid bod y sefydliad yn darparu cymorth wedi'i deilwra i ddioddefwyr benywaidd a/neu wrywaidd sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig ar unrhyw adeg yn ystod eu bywydau. Mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant. Gellir defnyddio'r cyllid i gefnogi cleientiaid presennol yn ogystal ag atgyfeiriadau newydd.

30. Gallai gwasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin domestig gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

• Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig;

• Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc;
• Cymorth llys teulu;
• sesiynau cwnsela wyneb yn wyneb neu o bell i unigolion a / neu eu teuluoedd; neu
• cymorth i grwpiau penodol megis dioddefwyr o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig/ dioddefwyr Anabl/ dioddefwyr Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol.

31. Mae cyllid i roi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig mewn llety diogel yn amodol ar broses gyllido ar wahân a gaiff ei chynnal gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ni ddylid defnyddio cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddarparu llety. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r cyllid grant presennol ar gyfer dioddefwyr, gellir defnyddio cyllid arbennig y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer COVID-19 i ariannu gwasanaethau sy'n rhoi cymorth i'r dioddefwyr hyn, os bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn penderfynu mai dyma'r maes sydd ei angen fwyaf.

32. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eisoes yn ariannu gwasanaethau cymorth cam-drin domestig, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r Awdurdod Lleol, a bydd ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion a darpariaeth gwasanaethau yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, sylweddolwn y gall lefelau cyllid fod yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd ac, am y rheswm hwn, wrth asesu'r ffordd y dylai cronfeydd cam-drin domestig gael eu dyrannu, **rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wneud eu proses yn agored i bob gwasanaeth cymorth cam-drin domestig yn eu hardal, p'un a ydynt yn ei ariannu ar hyn o bryd ai peidio**, er mwyn sicrhau y gall yr ystod ehangaf o sefydliadau gael gafael ar y cyllid.

33. Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eisoes yn meddu ar wybodaeth fanwl am anghenion y gwasanaethau cymorth cam-drin domestig maent yn eu hariannu ar hyn o bryd sy'n ymwneud â COVID-19. Efallai y bydd eu proses ar gyfer dyrannu'r gronfa £10m ar gyfer cam-drin domestig yn adeiladu ar y wybodaeth hon, neu efallai y bydd yn broses gwbl newydd. Bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gynnal asesiadau diwydrwydd dyladwy a risg o dwyll priodol ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn eu hariannu ar hyn o bryd wrth ddyrannu'r gronfa £5m ar gyfer cam-drin domestig. **Nid oes angen iddynt ddilyn proses ceisiadau cystadleuol lawn. Ni** all arian symud rhwng y ddwy gronfa.

34. Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sicrhau bod sefydliadau cam-drin domestig sy'n darparu gwasanaethau wedi'u teilwra i grwpiau penodol megis dioddefwyr o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, dioddefwyr anabl a dioddefwyr lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol yn cael eu cynnwys wrth bennu angen lleol, a sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli mewn ffordd gymesur o fewn dyraniadau cyllido. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ymgysylltu â chomisiynwyr lleol eraill, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, wrth bennu ac asesu'r angen lleol.

**Amodau cyllid ar gyfer trais rhywiol**

35. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **cyllid penodol ar gyfer trais rhywiol**, rhaid bod y sefydliad yn darparu cymorth wedi'i deilwra i ddioddefwyr benywaidd a/neu wrywaidd sydd wedi cael profiad o gam-drin rhywiol neu dreisio ar unrhyw adeg yn ystod eu bywydau.  Mae

hyn yn cynnwys oedolion a phlant. Gellir defnyddio'r cyllid i gefnogi cleientiaid presennol yn ogystal ag atgyfeiriadau newydd.



36. Gallai gwasanaethau cymorth ar gyfer trais rhywiol gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

• Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol;

• Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc;
• cymorth llys;
• sesiynau cwnsela wyneb yn wyneb neu o bell i unigolion a / neu eu teuluoedd; neu
• cymorth i grwpiau penodol megis dioddefwyr o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig/ dioddefwyr Anabl/ dioddefwyr Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol.

37. Gall cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth trais rhywiol ddod o amrywiaeth o ffynonellau; fodd bynnag, caiff cyfran sylweddol ei ddarparu'n genedlaethol drwy'r Gronfa Cymorth Treisio a'r GIG, sy'n darparu cyllid arbennig yn ymwneud â COVID-19. Mae holl Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ariannu gwasanaethau cymorth trais rhywiol. Nifer bach o wasanaethau cymorth treisio nas ariennir gan y sefydliadau hyn, ond er mwyn sicrhau hynny **rhaid i bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wneud ei broses dyrannu cyllid yn agored i bob canolfan cymorth trais rhywiol y tu hwnt i'r rhai a ariennir eisoes.**

38. Bydd llawer o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eisoes yn meddu ar wybodaeth fanwl am anghenion y gwasanaethau cymorth trais rhywiol maent yn eu hariannu ar hyn o bryd sy'n ymwneud â COVID-19. Efallai y bydd eu proses ar gyfer dyrannu cyllid yn adeiladu ar y wybodaeth hon, neu efallai y bydd yn broses gwbl newydd. Bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gynnal asesiadau diwydrwydd dyladwy a risg o dwyll priodol ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn eu hariannu ar hyn o bryd. **Nid oes angen iddynt ddilyn proses ceisiadau cystadleuol lawn.**

39. Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sicrhau bod sefydliadau trais rhywiol sy'n darparu gwasanaethau wedi'u teilwra i grwpiau penodol megis dioddefwyr o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, dioddefwyr anabl a dioddefwyr lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol yn cael eu cynnwys wrth bennu angen lleol, a sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli mewn ffordd gymesur o fewn dyraniadau cyllido. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ymgysylltu â chomisiynwyr lleol eraill wrth bennu ac asesu'r angen lleol.

**Y broses oruchwylio**

40. Bydd y Comisiynydd Dioddefwyr a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn cyflawni rôl cynghori a goruchwylio drwy gydol y broses hon. Rydym yn ymwybodol o annibyniaeth Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ond hefyd o'r arbenigedd sylweddol sydd gan y

Comisiynydd Dioddefwyr a'r Comisiynydd Cam-drin Domestig a'u swyddfeydd. Os hoffai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gael cyngor ar eu proses neu faterion sy'n berthnasol i asesu anghenion lleol, dylent gysylltu â'r canlynol:

- Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr – victims.commissioner@victimscommissioner.org.uk
- Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig – Commissioner@domesticabusecommissioner.independent.gov.uk

41. Os bydd gan sefydliadau gwestiynau neu bryderon am y broses, dylent gysylltu â Phrif Weithredwr a swyddog monitro swyddfa berthnasol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn y lle cyntaf. Os bydd sefydliadau yn parhau i bryderu am y broses, neu ganlyniad y broses, yn eu hardal, dylent gysylltu â chadeirydd eu Panel yr Heddlu a Throseddu lleol. Rhoddir manylion yn y ddogfen atodedig: Rhestr Gyswllt Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

TUDALEN 8

**Llinellau amser**

| | |
|---|---|
| 19/05/2020 | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyhoeddi canllawiau a dogfennaeth berthnasol arall, gan gynnwys y llythyr dyrannu dangosol. Gall Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddechrau'r broses asesu. |
| 01/06/2020 | Rhaid i broses asesu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gau. Dyddiad cau i sefydliadau anfon gwybodaeth i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. |
| 04/06/2020 | Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddarparu dogfennaeth sicrwydd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 09/06/2020 | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyflwyno cytundebau grant i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu |
| 12/06/2020 | Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddychwelyd cytundeb grant wedi'i lofnodi at y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| 18/06/2020 | Bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi derbyn taliad |

TUDALEN 9

**Cwestiynau Cyffredin**

**1. Pa sefydliadau sy'n gymwys i gael cyllid arbennig y Weinyddiaeth Gyfiawnder i wasanaethau cymorth ar gyfer Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ystod COVID-19?**

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y cyllid, rhaid i sefydliadau fod yn elusen gofrestredig, yn sefydliad corfforedig elusennol, neu'n fenter gymdeithasol, gan gynnwys cwmnïau cyfyngedig drwy warant a chwmnïau buddiannau cymunedol yng Nghymru a Lloegr. Rhaid eu bod hefyd yn darparu gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra er mwyn helpu dioddefwyr

cam-drin domestig a/neu drais rhywiol i ymdopi ag effeithiau troseddau, yn ogystal â gwella o'r niwed a gawsant, hyd y gellir.

**2. Ar beth y gall sefydliadau wario'r arian hwn?**

Gellir defnyddio'r cyllid i roi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol a'u teuluoedd. Gallai gwasanaethau cymorth gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

• Cynghorwyr Annibynnol ar Gam-drin Domestig/ Trais Rhywiol;

• Cynghorwyr Annibynnol ar Gam-drin Domestig Plant a Phobl Ifanc/ Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc;
• cymorth llys;
• sesiynau cwnsela wyneb yn wyneb neu o bell i unigolion a/neu eu teuluoedd;
• cymorth i grwpiau penodol megis dioddefwyr o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig/ dioddefwyr Anabl/ dioddefwyr Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol

Gellir defnyddio'r cyllid i fynd i'r afael ag amharu byrdymor ar incwm lle na all sefydliadau fanteisio ar fesurau presennol y llywodraeth.

Gellir defnyddio'r cyllid i dalu costau hanfodol parhau i gynnal gweithgareddau presennol, megis newid i weithio o bell ac yn ddigidol yn hytrach na chynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb.

Gellir defnyddio'r cyllid i fynd i'r afael â chynnydd mewn galw, gan gynnwys addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion mwy dybryd yn sgil COVID-19.

Er enghraifft, gellid defnyddio'r cyllid ar gyfer y canlynol:

• Contractau byrdymor ar gyfer aelodau ychwanegol o staff hyd at 31 Hydref 2020 (neu'n gynt).
• Gwariant ychwanegol ar aelodau presennol o staff (er enghraifft goramser neu oriau cynyddol), hyd at 31 Hydref 2020 (neu'n gynt)
• Prynu offer newydd, er enghraifft gliniaduron a ffonau symudol, er mwyn galluogi staff i weithio gartref
• Llwyfannau ar-lein i roi cymorth neu sesiynau cwnsela
• Gwariant hanfodol ar aelodau presennol o staff ac offer sydd eisoes yn bodoli nad oes modd talu amdano mwyach yn ystod y cyfyngiadau symud gan fod llai o fynediad i ffynonellau cyllid arferol.

Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr, a chaiff rhagor o fanylion eu nodi mewn trefniadau grant penodol ar gyfer COVID-19 gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a rhaid cydymffurfio â'u hamodau wrth ddyrannu cyllid. Y sefydliadau sy'n gyfrifol am unrhyw wariant y maent yn ymrwymo iddo y tu hwnt i'r cyfnod o chwe mis.

**3. A oes unrhyw gyfyngiadau ar y ffordd y gall Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wario'r arian?**

Yn unol â grantiau arferol y llywodraeth, rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu sicrhau nad yw sefydliadau yn defnyddio'r cyllid ar gyfer unrhyw rai o'r gweithgareddau canlynol:

- gweithgareddau ymgyrchu (nod y gronfa hon yw cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau uniongyrchol i unigolion sy'n agored i niwed);
- gweithgareddau crefyddol y tu hwnt i brosiectau er budd y gymuned ehangach heb gynnwys crefyddol;
- gweithgareddau gwleidyddol neu lobïo;
- ad-dalu benthyciadau; neu
- gweithgareddau sy'n creu elw er budd preifat

Ni ellir defnyddio'r cyllid ar gyfer gwaith cyfalaf e.e. atgyweirio adeiladau ond gellir ei ddefnyddio ar gyfer costau cyfalaf eraill megis offer TGCh i wella eich dulliau cyfathrebu a helpu i gysylltu â phobl leol.

Ni ellir defnyddio'r cyllid i dalu am nwyddau na gwasanaethau a brynwyd neu a archebwyd cyn 24 Mawrth 2020, sef dechrau'r cyfyngiadau symud.

Ni ellir defnyddio'r cyllid i dalu am unrhyw ddyledion sydd gan y sefydliad ers cyn 24 Mawrth 2020.

**4. Mae fy ngwasanaeth/sefydliad yn derbyn cyllid ar gyfer gwasanaethau trais rhywiol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Chronfa Cymorth Treisio a Cham-drin Rhywiol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. A oes angen imi gyflwyno cais am gyllid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn ogystal â chais am gyllid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am wahanol elfennau o'n gwasanaeth?**

Oes, bydd angen i chi gyflwyno cais am gyllid i'r Gronfa Genedlaethol ar gyfer Cymorth Treisio a Cham-drin Rhywiol i dalu costau COVID-19 sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a ariennir fel arfer gan y Gronfa Genedlaethol ar gyfer Cymorth Treisio a Cham-drin Rhywiol, ac i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer costau COVID-19 sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu fel arfer.

**5. Caiff rhai agweddau ar ein technoleg, megis gliniaduron a llwyfannau rhithwir, eu defnyddio gan bob gwasanaeth a ariennir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Gronfa Genedlaethol ar gyfer Cymorth Treisio a Cham-drin Rhywiol. Pa gronfa y dylwn ofyn am gyllid ganddi i dalu'r costau hyn?**
Gallwch ofyn am gyllid ar gyfer eitemau a ddefnyddir gan sawl gwasanaeth a ddarperir drwy'r ddau gomisiynydd gan y naill gronfa; fodd bynnag, dim ond i un gronfa y dylech gyflwyno cais am gyllid ar gyfer yr offer hwn. Ni ddylech ofyn am gyllid gan y ddwy gronfa ar gyfer yr un offer.

**6. A ellir gofyn am gyllid gan sawl un o gronfeydd y llywodraeth?**

Er y gall sefydliadau ofyn am gyllid gan unrhyw un o'r cronfeydd, ni allwch dderbyn cyllid at yr un diben gan sawl cronfa e.e. os caiff sefydliad gyllid drwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu i brynu offer TG er mwyn gweithio o bell, ni all y sefydliad wedyn ofyn am gyllid ar gyfer mwy o offer TG gan un o gronfeydd eraill y llywodraeth. Fodd bynnag, gallent ofyn am gyllid ar gyfer sesiynau cwnsela gan gronfa wahanol, gan na wnaed cais am hyn eisoes.

**7. Os ydw i'n ganolfan sydd wedi'i lleoli mewn ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n darparu cymorth lleol, ond rwy'n un ganolfan o fewn sefydliad mawr sydd ag ôl-troed mwy cenedlaethol, a ddylwn i ofyn am gyllid gan gronfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu gronfa'r Swyddfa Gartref?**

Os ydych yn darparu gwasanaethau lleol o fewn un ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn unig, ond eich bod yn rhan o sefydliad cenedlaethol mawr, dylech ofyn am gyllid drwy eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Efallai eich bod yn cynnig gwasanaeth cwbl lleol, ond bod gennych linell gymorth genedlaethol, ac os felly gallwch ofyn am gyllid gan  Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer y gwasanaeth lleol, a'r Swyddfa Gartref ar gyfer y gwasanaeth cenedlaethol. Ni ddylech ofyn am gyllid gan y ddwy gronfa ar gyfer yr un peth.

**8. A oes modd defnyddio'r arian i gynorthwyo dioddefwyr mathau eraill o drosedd?**

Mae cyllid arbennig y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod COVID-19 wedi'i neilltuo i gynnig darpariaeth wedi'i theilwra i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn unig.

**9. Beth yw ystyr ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu?**
Mae 42 o ardaloedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru a Lloegr sydd â'r un ffiniau â'u priod Heddluoedd.

**10. Beth yw'r lefel ofynnol o wybodaeth y disgwylir ei chasglu a'i hadolygu wrth asesu anghenion?**

Er mwyn sicrhau bod asesiad teg yn cael ei gynnal ym mhob un o ardaloedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu nodi'r canlynol wrth asesu anghenion:

- a oes sefydliad eisoes yn cael ei ariannu ganddynt;
- pa grwpiau o ddioddefwyr y mae'r sefydliad yn eu cynorthwyo (er enghraifft dioddefwyr o gefndiroedd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, dioddefwyr lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol, dioddefwyr sy'n blant, dioddefwyr anabl);
- a yw'r sefydliad wedi colli incwm oherwydd COVID-19 (e.e. ennill ffioedd, digwyddiad codi arian a gynlluniwyd ond na chafodd ei gynnal);
- a yw cyllidwyr wedi cadw at gontractau presennol y sefydliad; • unrhyw incwm ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19 y mae'r sefydliad wedi'i gael. (Incwm gan lywodraeth leol, gwasanaethau statudol, rhoddion ac unrhyw weithgarwch rhoi sy'n mynd rhagddo);

• sut mae lefel cronfeydd wrth gefn bresennol y sefydliad yn cymharu â busnes fel arfer (a oes rhaid i'r sefydliad ddefnyddio ei holl gronfeydd wrth gefn er mwyn parhau i redeg?);
• y costau ychwanegol y mae'r sefydliad wedi mynd iddynt yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 o 24 Mawrth 2020;
• y costau ychwanegol y mae'r sefydliad yn eu disgwyl yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 tan ddiwedd mis Hydref 2020.

**11. Mae ein hasesiad o anghenion yn dynodi bod angen mwy o gyllid arnom na'r hyn y mae ein Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ei ddyrannu. A ellir gofyn am ragor o gyllid?**

Ar hyn o bryd, nid oes mwy o gyllid ar gael y tu hwnt i ddyraniadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

**12. Mae ein hasesiad o anghenion yn dynodi nad oes angen yr holl gyllid a ddyrannwyd i'n hardal. Beth y dylem ei wneud?**

Yn y ddogfen ganllaw, rydym wedi nodi y dylai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu roi gwybod inni am unrhyw danwariant fel rhan o'r datganiad ysgrifenedig maent yn ei ddarparu inni o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y caiff Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu llythyr dyrannu dangosol.

**13. Yn y ddogfen ganllaw nodir y rhyddheir taliad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder pan fydd y gwaith papur wedi'i wirio'n foddhaol. A fydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael y gwaith papur hwn ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod yr asesiad o anghenion a'r gwiriadau diwydrwydd dyladwy mewnol yn mynd i'r afael â'r hyn a ofynnir?**

Byddant. Darperir templed ar gyfer yr asesiad o anghenion gyda'r ddogfen ganllaw.

**14. Os nad yw'n ofynnol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddilyn proses ceisiadau cystadleuol lawn, sut y sicrheir diwydrwydd dyladwy?**

Rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fod yn hyderus a gallu dangos tystiolaeth, wrth adrodd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, eu bod wedi bodloni'r disgwyliadau a amlinellir yn eu cytundeb grant ar gyfer rheoli arian cyhoeddus.

Er mwyn lleihau'r risg o ddyblygu, twyll a gwall bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu mynediad i adnodd Diwydrwydd Dyladwy Awtomataidd Grantiau'r Llywodraeth, sef SPOTLIGHT. Os hoffech gael mynediad i adnodd SPOTLIGHT cysylltwch â: spotlight@cabinetoffice.gov.uk

Hefyd, bydd angen i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gynnal asesiad o'r risg o dwyll ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn eu comisiynu ar hyn o bryd.

**15. Am ba mor hir y dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hyrwyddo'r cyfle am gyllid?**

Dylai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hyrwyddo'r cyfle am gyllid am 14 diwrnod o'r dyddiad y caiff Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu llythyr dyrannu dangosol.



**16. Faint o amser y mae'n rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ei roi i sefydliadau ddarparu gwybodaeth i gael eu hystyried am y cyllid sydd ar gael?**

Caiff sefydliadau 14 diwrnod i ymateb i'w Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu lleol.

**Amodau cyllid penodol ar gyfer cam-drin domestig a thrais rhywiol**

**17. Faint o gyllid a ddyrennir i wasanaethau cam-drin domestig nad yw Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn eu comisiynu ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau cam-drin domestig sydd eisoes yn cael eu comisiynu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | £10m |
| Gwasanaethau trais rhywiol sydd eisoes yn cael eu comisiynu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r rhai nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | £5m |
| Gwasanaethau cam-drin domestig nad ydynt yn cael eu comisiynu ar hyn o bryd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu | £5m |

**18. A yw elusennau cam-drin 'seiliedig ar anrhydedd' (sy'n cynnwys priodas dan orfod ac anffurfio organau cenhedlu benywod) yn gymwys i gael cyllid cam-drin domestig?**

Mae cam-drin seiliedig ar anrhydedd yn rhan o ddiffiniad y llywodraeth o gam-drin domestig. Caiff unrhyw sefydliad sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra i ddioddefwyr cam-drin domestig a'u teuluoedd ei gydnabod fel gwasanaeth cymorth cam-drin domestig.

**19. A yw elusennau stelcio yn gymwys i gael cyllid cam-drin domestig?**

Mae stelcio gan gyn-bartner neu aelod o'r teulu yn rhan o ddiffiniad y llywodraeth o gam-drin domestig. Caiff unrhyw sefydliad sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra i ddioddefwyr cam-drin domestig a'u teuluoedd ei gydnabod fel gwasanaeth cymorth cam-drin domestig.

**20. Rwy'n rhedeg gwasanaeth sy'n agos at ffiniau tair ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wahanol, ac mae fy ngwasanaeth yn cwmpasu defnyddwyr ym mhob un o'r ardaloedd hyn. A ddylwn i ofyn am gyllid gan y Swyddfa Gartref neu drwy**

**Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu? Os mai drwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y dylwn i wneud hynny, pa un?**
Gan fod eich gwasanaeth yn cwmpasu ardal leol, a bod eich holl ddefnyddwyr yn lleol i'r gwasanaeth, dylech ofyn am gyllid gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Dylech ofyn am gyllid gan y Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu lle rydych wedi eich lleoli yn ffisegol, oni bai bod gennych gydberthnasau cyllido â sawl Comisiynydd eisoes. Os felly, dylech ofyn am gyllid gan bob un ar gyfer yr elfennau maent yn eu hariannu eisoes, fel y byddech mewn cylch cyllido arferol.

**21. Rwy'n darparu gwasanaeth cenedlaethol, ond dim ond mewn un ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu rwyf wedi fy lleoli'n ffisegol. A ydw i yn gofyn am gyllid gan y Swyddfa Gartref neu fy Nghomisiynydd yr Heddlu a Throseddu?**

Gan fod eich gwasanaeth yn genedlaethol, dylech ofyn am gyllid gan y Swyddfa Gartref.



**22. Rwy'n sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i'm cymuned leol, ac rwyf hefyd yn wasanaeth cenedlaethol. A ddylwn i ofyn am gyllid gan y Swyddfa Gartref neu Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu?**

Dylech ofyn am gyllid gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y gwasanaeth cenedlaethol a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer yr un lleol.

**23. Rwy'n rhedeg gwasanaeth sydd wedi ei leoli mewn un ardal Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, ond mae'n cefnogi dioddefwyr ar draws nifer o ardaloedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ac nid ydynt mewn un ardal leol. A ydw i yn gofyn am gyllid gan y Swyddfa Gartref neu fy Nghomisiynydd yr Heddlu a Throseddu?**

Gan fod eich gwasanaeth yn cwmpasu ardal ddaearyddol eang mewn nifer o ardaloedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gwahanol, ac nad yw eich holl ddefnyddwyr yn lleol i'r gwasanaeth, dylech ofyn am gyllid gan y Swyddfa Gartref.

**24. A fydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gofyn i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddangos tystiolaeth o wariant ac effaith cyllid arbennig y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod COVID-19 ar gyfer gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a thrais rhywiol?**

Bydd. Gofynnir i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu adrodd ar ddiwedd cyfnod y cytundeb grant, erbyn 30 Tachwedd 2020 fan bellaf. Darperir templed adrodd. Atodir dogfen yn nodi'r gofynion adrodd.

**25. Os bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am geisio cyngor annibynnol ar gyllid arbennig y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a thrais rhywiol, â phwy y gall siarad?**

Bydd y Comisiynydd Dioddefwyr a Chomisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr yn cyflawni rôl gynghorol drwy gydol y broses. Os hoffai Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gael cyngor ar y broses neu faterion sy'n berthnasol i asesu anghenion lleol, dylent gysylltu â'r canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr yn: victims.commissioner@victimscommissioner.org.uk

Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig yn:
Commissioner@domesticabusecommissioner.independent.gov.uk

**26. Â phwy y dylai sefydliadau gysylltu os byddant yn anfodlon ar y broses neu'r canlyniad?**

Os bydd gan sefydliadau gwestiynau neu bryderon am y broses, dylent gysylltu â Phrif Weithredwr a swyddog monitro Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn y lle cyntaf. Mae'r manylion ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/covid-19-funding-for-domesticabuse-and-sexual-violence-support-services.

TUDALEN 15

Os bydd sefydliadau yn parhau i bryderu, dylent gysylltu â chadeirydd eu Panel yr Heddlu a Throseddu lleol. Mae'r manylion ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/covid-19-funding-for-domestic-abuse-and-sexualviolence-support-services.

**27. A yw'r cyllid ychwanegol o £3m ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol ar ben y £1m a gyhoeddwyd eisoes eleni?**

Ydy. Cyllid ychwanegol yw hwn er mwyn recriwtio mwy o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol fel bod hyblygrwydd a chwmpas lleol. Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn yn fuan

TUDALEN 16

**© Hawlfraint y Goron 2019**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/opengovernment-licence/version/3

Lle byddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn mojanalyticalservices@justice.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn
h
t
t
p
:
/
/